Profiad Bywyd yr Oedolyn Canllaw Ymarfer

Fersiwn	Adolygiad	Dyddiad
Fersiwn drafft 1	Ar gyfer ymgynghoriad	16/05/2024
F2	Cytunwyd arno yn y Grŵp Polisi a Gweithdrefnau	20/09/2024
F2	Dyddiad Adolygu	20/09/2027

MYNEGAI

Pennod		Rhif Tudalen:
Cyflwyniad		3
1.	Diffiniad	3
2.	Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	3
3.	Sgiliau Angenrheidiol ar gyfer Arfer Diogelu	3
4.	Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Cyfathrebu Effeithiol	4
5.	Pryder am Allu'r Oedolyn i Rannu	5
6.	Sut mae Anghenion Gofal yn Effeithio ar Gyfathrebu?	5
7.	Cofnodi Profiad Bywyd	6
8.	Adnoddau Defnyddiol i Ddysgu Mwy am Brofiad Bywyd yr Oedolyn a'i Gofnodi	6

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) yn cynnal Archwiliadau Amlasiantaeth ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn rheolaidd. Mae'r archwiliadau a'r adolygiadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd edrych ar brofiad bywyd yr oedolyn; dylid cofnodi a rhoi ystyriaeth i sut mae bywyd i'r oedolyn wrth geisio ei gefnogi.

Mewn achosion pan nad yw profiad bywyd yr oedolyn ar gael, efallai na chaiff ei flaenoriaethu, neu efallai bydd lleisiau uwch teulu, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol eraill yn ei guddio, er anfantais i ymdrechion i ddiogelu'r unigolyn.

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei datblygu gan bartneriaid er mwyn galluogi ymarferwyr i ystyried profiad yr oedolyn a sicrhau bod profiad bywyd yr oedolyn yn parhau yn rhan ganolog o unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl.

Bydd y canllaw ar gael i'r holl weithwyr proffesiynol (mae hyn yn cynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr) sydd â chyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol (h.y., sy'n gweithio gyda theuluoedd / gofalwyr o bosib) gydag oedolion mewn perygl; ac sydd â chyfrifoldebau ar gyfer diogelu a hyrwyddo eu lles.

1. Diffiniad

'Yr hyn y mae oedolyn mewn perygl yn ei weld, ei glywed, ei feddwl a'i brofi o ddydd i ddydd sy'n effeithio ar eu datblygiad personol a'u lles, boed yn emosiynol neu'n gorfforol. Fel ymarferwyr, mae angen i ni; glywed beth sydd gan yr oedolyn i'w ddweud neu ei gyfathrebu, arsylwi'r hyn maen nhw'n ei wneud mewn gwahanol gyd-destunau, clywed beth mae aelodau'r teulu, oedolion/gofalwyr arwyddocaol a gweithwyr proffesiynol wedi'i ddweud am yr oedolyn mewn perygl, a meddwl am hanes a chyd-destun. Yn y pen draw, mae angen i ni roi ein hunain yn sefyllfa'r oedolyn hwnnw a meddwl 'sut mae bywyd i'r unigolyn hwn ar hyn o bryd?'

2. Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Mae gofynion statudol sy'n ymwneud â Diogelu Oedolion mewn Perygl wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chânt eu hegluro yn nogfen Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r canllawiau statudol yn nodi cysyniad *Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn*.

Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yw'r dull angenrheidiol o Ddiogelu Oedolion fel a gytunwyd gan Fwrdd Prosiect Diogelu Cymru.

Mae Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ddysgu am **brofiad bywyd yr oedolyn**.

3. Sgiliau Angenrheidiol ar gyfer Arfer Diogelu

Mae Adolygiadau Ymarfer Oedolion, rhai lleol a chenedlaethol, yn amlygu pwysigrwydd set o sgiliau a thechnegau sy'n angenrheidiol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl; heb y rhain, bydd diffyg gwybodaeth am brofiad bywyd yr oedolyn. Gallai hyn yn ei dro arwain at fethu cyfleoedd i weithio'n effeithiol gyda'r unigolyn hwnnw.

Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod wedi eu cyfyngu i:

- Chwilfrydedd Proffesiynol
- Ansicrwydd Parchus
- Meddwl Hyblyg
- Gallu Diwylliannol

Mae'r sgiliau hyn i gyd yn gofyn am ddealltwriaeth o bwysigrwydd gofyn cwestiynau, dull cyflawn a thrylwyr o gyfathrebu, parodrwydd i herio rhagdybiaethau, ac amharodrwydd i dderbyn pethau ar eu golwg.

Mae'r canlynol yn berthnasol i ddeall profiad bywyd yr oedolyn hefyd:

- Ymwybyddiaeth o Gydymffurfiaeth Gudd
- Peidio â gadael i lais yr oedolyn gael ei guddio gan deulu/ffrindiau/gofalwyr
- 'Dull Gwrthdaro Gofalgar'; lle caiff anghysondebau rhwng yr hyn mae oedolion yn dweud y byddan nhw'n ei wneud a'r hyn y gallan nhw ei wneud mewn gwirionedd yn cael ei herio'n barchus, ond yn uniongyrchol

Mae dealltwriaeth o brofiad bywyd yr oedolyn, a diogelu effeithiol a chefnogol o ganlyniad, yn gofyn am ymgysylltu'n rheolaidd â'r oedolyn, ar sail perthynas ac yn y tymor hir.

Awgrymiadau ar sut i ymgysylltu:

- **Byddwch yn barod** - Gwiriwch hanes yr oedolyn mewn perygl cyn i chi fynd (h.y. Risg / Bregusrwydd) / Meddyliwch pa adnoddau priodol (i'ch helpu i ymgysylltu a chyfathrebu) fydd eu hangen arnoch ar gyfer y dasg
- **Cydweithio** - Mae'n bosibl y bydd angen dau weithiwr proffesiynol ar gyfer ymweliadau cartref (iechyd a diogelwch/gweithio cydgysylltiedig er mwyn osgoi ailadrodd gwaith a chynnal nifer o ymweliadau proffesiynol) – meddyliwch pwy fydd yn cyfathrebu a beth fydd angen i bob un ei ddweud a'i wneud (e.e. gallai un ofyn cwestiynau am yr oedolyn mewn perygl tra bydd y llall yn arsylwi'r rhyngweithio a'r amgylchedd)
- **Cynllunio eich asesiad**- os ydych chi'n mynd i'r tŷ yr un amser bob tro gan weld oedolyn mewn perygl o flaen y teledu, sut fyddwch chi'n gwybod ai rhan o'r drefn ddyddiol briodol yw hyn, neu ydyn nhw yno trwy'r amser? Byddwch yn glir o'r dechrau y bydd angen i chi weld yr oedolyn mewn perygl, naill ai ar eu pen eu hunain neu y tu allan i'r cartref
- **Meddyliwch pwy sydd yn y sefyllfa orau/pwy sy'n gallu ffurfio perthynas gynhyrchiol** - Gall perthnasoedd fod yn gymhleth; mae'n bwysig cydnabod pan fo perthynas yn wrthgynhyrchiol, a meddwl a fyddai newid o ran dull, neu newid o ran gweithiwr proffesiynol, yn angenrheidiol.

4. Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Cyfathrebu Effeithiol

a. Edrych ar ffyrdd creadigol o ymgysylltu â'r oedolyn o ran eu sgiliau cyfathrebu, gallu meddyliol a hanes personol, i'w galluogi i rannu eu hanes.
    - A oes modd defnyddio celf, cerddoriaeth neu gyfryngau arall er mwyn annog sgwrs neu er mwyn deall amgylchiadau'r oedolyn yn well?
b. Cofiwch bwysigrwydd cyfathrebu di-eiriau. Byddwch yn sylwgar gan

ystyried:

- Ymddangosiad personol
- Amgylchedd - Beth allwch chi ei weld, ei arogli a'i glywed? Beth sydd angen i chi ei ofyn?
- Rhyngweithio â'r teulu/gofalwr

5. Pryder am Allu'r Oedolyn i Rannu

Mae amodau penodol sy'n gallu gweithio i gamlunio dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o brofiad bywyd yr oedolyn, y mae angen i'r gweithwyr fod yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys:

- Tactegau gorfodaethol a rheolaethol gan y camdriniwr, sy'n atal y dioddefwr rhag ymgysylltu
- Pan nad oes gan yr oedolyn mewn perygl allu meddyliol i benderfynu a oes angen iddynt gael eu diogelu neu pan nad oes ganddynt allu i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.

6. Sut mae anghenion gofal yn effeithio ar gyfathrebu?

a. Gall oedolion ag anghenion gofal fod yn amharod i gydnabod bod ganddynt anghenion, neu efallai na fyddant yn gallu cydnabod hynny, gan geisio cuddio'r anawsterau allai fod yn eu hwynebu

b. Mae'n bosibl y bydd rhai oedolion mewn perygl yn wynebu anawsterau cyfathrebu sy'n ymwneud â'r cyflwr, gan arwain at anghenion gofal.
   - Mae nifer o adnoddau ar gael i helpu pobl i gyfathrebu
   - Efallai bydd angen eiriolwr wedi'i hyfforddi er mwyn cyfathrebu ar ran yr oedolyn

c. Ceisiwch fod yn ymwybodol sut gall rhai cyflyrau iechyd effeithio ar ymddygiad.
   - Mae'n bosibl y bydd angen ymchwilio i'r cyflyrau penodol, neu ofyn am fewnbwn gan weithiwr proffesiynol arall
   - Mae angen i weithwyr proffesiynol ganfod a yw newidiadau o ran ymddygiad o ganlyniad i anghenion gofal yr oedolyn, neu a ydynt yn dangos bod angen arall heb ei ddiwallu, neu'n dangos arwyddion camdriniaeth

d. Mae'n bosibl y bydd gan oedolion ag anghenion gofal berthynas gymhleth â'r teulu/ffrindiau neu ofalwyr anffurfiol eraill sy'n diwallu'r anghenion hynny
   - Amharodrwydd i drafod ymddygiad difrïol gan ofalwr anffurfiol, naill ai er mwyn diogelu'r gofalwr neu oherwydd pryderon o ran sut byddai anghenion gofal yn cael eu diwallu
   - Canfyddiad eu bod yn 'faich'
   - Mae'n bosibl y bydd gan y gofalwyr wybodaeth werthfawr i'w rhannu, er mwyn helpu i ddeall profiad bywyd yr oedolyn. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi pwysau gormodol i'r wybodaeth hon, yn enwedig pan fo'n gwrthddweud yr hyn y byddwch chi'n ei glywed neu'n ei arsylwi gan yr oedolyn.

7. Cofnodi profiad bywyd

Dylai nodiadau achos adlewyrchu'r hyn sy'n hysbys am brofiad bywyd yr oedolyn, sut yr ystyrir hyn yn ystod yr asesiad, a'i effaith ar y penderfyniadau a wneir. Dylid cofio diweddaru cofnodion achos er mwyn i eraill weld pa waith sydd wedi'i gyflawni gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Cofiwch:

- Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol lle bo modd
- Dylai'r nodiadau ganolbwyntio ar y ffeithiau sy'n berthnasol i'r achos
- Lle bo angen barn broffesiynol, dylid nodi hynny a'i gyfiawnhau

8. Adnoddau defnyddiol i ddysgu mwy am brofiad bywyd yr oedolyn a'i gofnodi

Isod mae amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i helpu ymarferwyr ddysgu am brofiad bywyd yr oedolyn maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae nifer o'r adnoddau hyn yn benodol i gyflwr neu set o anghenion, felly ni fyddant yn berthnasol i bob oedolyn. Agwedd allweddol ar archwilio profiad bywyd yw penderfynu beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu â'r unigolyn yn effeithiol.

<u>Canllawiau</u>

1. Mae canllawiau sy'n gysylltiedig â Hunan-Esgeulustod a Chelcio ar gael ym Mholisi a Chanllawiau Hunan-Esgeulustod BDOGC

<u>Helpu â nam cyfathrebu</u>

2. Proffiliau cyfathrebu wedi'u cwblhau gan staff Therapi Lleferydd ac Iaith - Mae'n bwysig defnyddio'r rhain pan fo'r ffyrdd y mae pobl yn cyfathrebu â'u hymddygiad yn fwy clir na'r geiriau maen nhw'n eu defnyddio, neu pan fo gwahaniaeth rhwng yr hyn mae pobl yn ei ddweud a'r hyn maen nhw'n ei olygu. Dull o asesu galluoedd cyfathrebu oedolion ag anableddau dysgu difrifol i gymedrol yw'r Proffil Asesu Cyfathrebu. Mae'n defnyddio ffotograffau o wrthrychau mae oedolion yn eu defnyddio.
3. Dyfais 'Lightwriter' - Dyfais gyfathrebu â switsh a bysellfwrdd yw hwn, lle bydd y defnyddiwr yn teipio negeseuon a gaiff eu trosglwyddo trwy'r uned sain gan lais awtomatig. Fel cymhorthydd cyfathrebu â bysellfwrdd, mae'n rhaid i'r defnyddiwr allu defnyddio eu llaw. Mae gan y rhan fwyaf o fodelau sydd ar y farchnad heddiw sgrin arddangos ddeuol, un i'r defnyddiwr ei gweld ac un sy'n wynebu allan i'r unigolyn arall ei darllen.
4. Mae picTTalk (hwyluso straeon a sgyrsiau) yn adnodd cyfathrebu newydd - datblygwyd picTTalk (pictorial Tools for Talking) gan weithwyr proffesiynol, plant ac oedolion ag anabledd dysgu. Gall picTTalk helpu pobl i gael llais o ran yr hyn sy'n digwydd iddynt yn eu bywydau.
5. Talking Mats - Adnodd rhyngweithiol yw Talking Mats sy'n defnyddio tri set o symbolau cyfathrebu ar ffurf llun – pynciau, dewisiadau a graddfa weledol – a lle i'w harddangos. Gall fod yn fat ffisegol â gwead neu'n le digidol, er enghraifft, llechen, bwrdd deallus neu sgrin cyfrifiadur.
6. Byrddau cyfathrebu, siartiau a llyfrau (mae siartiau llythrennau, geiriau a lluniau, ffolderi neu lyfrau wedi'u cynnwys), byrddau pwyntio llygad (neu syllu); a byrddau pwyntio cylchol wedi'u pweru.
7. System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau, pan fo'r unigolyn yn rhoi llun er mwyn gofyn am rhywbeth neu fynegi rhywbeth.
8. Iaith arwyddion, e.e. Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, Saesneg â Chymorth

Arwyddion, neu fel rhan o ddull cyfathrebu cyflawn (pan ddefnyddir cyfuniad o ddulliau, e.e. efallai bydd unigolyn yn cael gwybodaeth trwy leferydd ac arwyddion ond yn mynegi eu hunain gan ddefnyddio arwyddion a symbolau).

9. Byrddau cyfathrebu a llyfrau cyfathrebu, pan all yr unigolyn bwyntio at eiriau, ffotograffau a/neu symbolau.
10. Gall cardiau sbardun cyfathrebu, a ddefnyddir yn bennaf gyda phobl sy'n gallu cyfathrebu'n eiriol, atgoffa beth i'w ddweud a darparu dull amgen i gyfathrebu mewn sefyllfaoedd llawn straen.
11. Mae cymhorthion cyfathrebu ag allbwn llais, e.e. BIGmack yn cynhyrchu lleferydd digidol pan fo'r unigolyn yn pwyso symbol neu fotwm. Bydd angen i'r unigolyn fod â dealltwriaeth o achos ac effaith er mwyn defnyddio'r dyfeisiau hyn.
12. Meddalwedd cyfathrebu amgen a chynyddol

<u>Er mwyn deall effaith cyflyrau penodol ar ymddygiad</u>

13. Canllaw Dementia GIG, gweler yr adran 'Coping with Dementia Behaviour Changes' https://www.nhs.uk/conditions/dementia/behaviour/